



## Cyflwyniad i yrfaeodd ym meysydd tywydd a hinsawdd

**1** Dechreuwch trwy ofyn ychydig o gwestiynau i'r grŵp i brofi eu gwybodaeth bresennol:

- Pa lwybrau gyrfa ym meysydd tywydd a hinsawdd ydych chi'n ymwybodol ohonynt? (Gallai'r rhain gynnwys: meteorolegydd; hydrometeorolegydd; gwyddonydd yr hinsawdd; gwyddonydd yr amgylchedd; delweddwr data; peiriannydd; arbenigwr cyfathrebu; gwyddonydd cyfrifiadureg; peiriannydd meddalwedd; eigionegwr)
- Pa sgiliau sy'n allweddol i yrfa ym maes y tywydd a'r hinsawdd yn eich barn chi? (Tynnu atebion megis datrys problemau, cydweithio/gwaith tîm)
- Pwy sy'n defnyddio gwybodaeth am y tywydd a'r hinsawdd yn eu swydd?

**2** Trafodwch atebion y grŵp yn fyr, gan eu hysgrifennu ar y bwrdd neu ofyn iddynt eu cofnodi yn eu llyfrau nodiadau. Nesaf, dangoswch y **ffilm fer, arwyr y tywydd**. Gofynnwch i bobl ifanc nodi'r gyrfaeodd y cyfeirir atynt yn y ffilm (e.e. arbenigwyr cyfathrebu, archifwyr, technolegwyr), gan sicrhau eu bod yn deall beth mae teitl pob swydd yn ei olygu a beth mae'n ei gynnwys.



15 munud



Gwaith grŵp

**3** Gofynnwch i'ch grŵp pa sgiliau sy'n cael eu crybwyll tua'r diwedd (e.e. gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg, gwyddorau cymdeithasol, celfyddydau). Archwiliwch sgiliau trosglwyddadwy pellach y gallai fod eu hangen ar gyfer y rolau hyn (e.e. mynd i'r afael â phroblemau'n dawel, meddwl yn greadigol, gweithio'n dda gydag eraill).

**4** Gofynnwch i'r bobl ifanc fyfyrrio ar ba swyddi eraill a allai fod ym maes tywydd a pha sgiliau y gallai fod eu hangen arnynt. Os oes ganddynt fynediad i'r rhynggrwyd, gallent edrych ar **wefan y Swyddfa Dywydd** i archwilio rolau eraill. Gofynnwch am ychydig o wirfoddolwyr i rannu eu hatebion a thrafod fel grŵp.

